Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Y Bedol
# Heol Cwmamman
# Glanaman
# Rhydaman
# Sir Gaerfyrddin
# SA18 1DZ

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2018**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Y Bedol

Lleolir Ysgol y Bedol ym mhentref Glanaman, yn Sir Gaerfyrddin.  Mae 357 disgybl rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr, yn cynnwys 9 oed meithrin amser llawn a 37 oed meithrin rhan amser.  Fe'u rhennir yn 14 dosbarth, gan gynnwys 3 dosbarth oed cymysg.

Tua 30% o'r disgyblion ar gyfartaledd dros dreigl 3 blynedd sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim.  Mae hyn yn sylweddol uwch na'r ganran genedlaethol, sy'n 18%.  Mae ychydig o'r disgyblion yn siarad Cymraeg gartref ac ychydig iawn sydd o gefndir lleiafrifol ethnig.  Mae'r ysgol wedi adnabod 38% o'i disgyblion fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.  Mae hyn eto yn sylweddol uwch na'r ganran genedlaethol, sy'n 21%.  Mae gan ychydig iawn o ddisgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig.

Penodwyd y pennaeth i'w swydd ym mis Medi 2017 ac arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Ebrill 2012.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae lles a gofal disgyblion yn ganolog i waith Ysgol y Bedol. Mae'r staff yn rhoi pwyslais cryf ar greu awyrgylch dysgu diogel i'w disgyblion, sy'n cael effaith led gadarnhaol ar eu hymddygiad a'u lles. Fodd bynnag, nid oes gan athrawon bob amser ddisgwyliadau digon uchel o ran safonau na dyhead academaidd disgyblion, yn enwedig wrth ddatblygu eu medrau llafar Cymraeg. O ganlyniad, nid yw'r lleiafrif o ddisgyblion yn gwneud digon o gynnydd, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 2.

Mewn cyfnod byr, mae'r arweinwyr presennol wedi sefydlu ethos o gydweithio llwyddiannus ymhlith y staff. Maent wedi gwneud gwelliannau buddiol i agweddau o'r ddarpariaeth a safonau disgyblion. Er bod arweinwyr yn adnabod cryfderau'r ysgol a llawer o'r meysydd ar gyfer gwelliant, nid yw'r gweithdrefnau monitro bob amser yn ddigon trylwyr i adnabod nac i fynd i'r afael â materion pwysig fel y diffyg her yn yr addysgu.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Digonol ac angen gwella** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Digonol ac angen gwella** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Digonol ac angen gwella** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Digonol ac angen gwella** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Digonol ac angen gwella** |

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod yr ysgol yn mynd i'r afael â'r mater diogelu a godwyd ynglŷn â'r maes parcio

A2 Codi disgwyliadau athrawon i sicrhau bod yr addysgu yn ddigon heriol ac yn ymateb yn briodol i anghenion disgyblion o bob gallu

A3 Gwella medrau llafar Cymraeg disgyblion

A4 Gwella medrau darllen ac ysgrifennu disgyblion yn y ddwy iaith yng nghyfnod allweddol 2

A5 Gwella dealltwriaeth athrawon o lefelu a sicrhau bod eu hasesiadau yn gywir

A6 Cryfhau rôl monitro arweinwyr i sicrhau bod gweithdrefnau yn ddigon trylwyr i fynd i'r afael â'r meysydd ar gyfer gwella

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn adolygu cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Digonol ac angen gwella**

Mae llawer o ddisgyblion yn dechrau'r ysgol gyda medrau cyfathrebu a medrau mathemategol sy'n is na'r disgwyl ar gyfer eu hoed. Ar draws yr ysgol, mae llawer yn gwneud cynnydd sydd o leiaf yn addas o'u mannau cychwyn. Mae llawer o ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd priodol tuag gyrraedd at eu targedau. Yn gyffredinol, nid yw disgyblion mwy abl yn gwneud cynnydd digon effeithiol mewn perthynas â'u gallu.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn y Meithrin yn gafael ar yr iaith Gymraeg yn gynnar ar ôl dechrau yn yr ysgol. Maent yn datblygu dealltwriaeth effeithiol o'r Gymraeg ac yn dechrau defnyddio geirfa newydd wrth drafod eu gwaith, er enghraifft wrth ddisgrifio lliw eu llygaid i greu graff dosbarth. Fodd bynnag, wrth symud drwy'r ysgol, nid yw llawer o ddisgyblion yn adeiladu ar eu medrau llafar Cymraeg yn ddigon effeithiol o fewn gwersi nac yn eu hamser hamdden. Yn gyffredinol, nid oes ganddynt afael digon cryf ar gystrawennau Cymraeg ac mae diffyg geirfa yn llesteirio eu gallu i drafod eu gwaith yn hyderus. Yng nghyfnod allweddol 2, fodd bynnag, mae medrau llafar Saesneg llawer o ddisgyblion yn datblygu'n gadarn.

Yn y cyfnod sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu ymwybyddiaeth ffonolegol gadarn. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, mae llawer yn darllen yn rhugl a chyda pheth mynegiant. Maent yn trafod cynnwys eu storïau'n hyderus. Yng nghyfnod allweddol 2, nid yw'r mwyafrif o ddisgyblion yn gwneud digon o gynnydd yn eu medrau darllen yn y Gymraeg. Erbyn Blwyddyn 6, mae'r mwyafrif yn darllen yn ddihyder ac nid yw eu dealltwriaeth o wahanol destunau yn ddigon cadarn. Mae medrau darllen Saesneg llawer o ddisgyblion yn datblygu'n briodol. Fodd bynnag, yn y ddwy iaith, nid yw eu defnydd o fedrau fel brasddarllen, wedi'u datblygu'n ddigon da.

Mae medrau ysgrifennu cynnar llawer o ddisgyblion yn datblygu'n dda. Maent yn ffurfio llythrennau yn gywir ac yn dechrau ysgrifennu brawddegau syml i gyfleu ystyr. Er enghraifft, yn y Derbyn, mae ychydig o ddisgyblion mwy abl yn defnyddio'u medrau yn annibynnol i ailadrodd stori Gelert. Mae llawer yn adeiladu ar y medrau hyn yn gynyddol wrth symud drwy'r cyfnod sylfaen. Ar draws cyfnod allweddol 2, mae gan y mwyafrif o ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o wahanol ffurfiau ysgrifennu, er enghraifft wrth ysgrifennu llythyr anffurfiol o safbwynt faciwî at ei rhieni yn ystod yr Ail Ryfel Byd ym Mlwyddyn 5 a 6. Fodd bynnag, nid yw disgyblion yn defnyddio eu medrau ysgrifennu yn ddigon cywir nac ar lefel ddigon uchel yn y Gymraeg na Saesneg, gan fod athrawon yn rhoi gormod o strwythur iddynt. O ganlyniad, nid yw disgyblion yn ymestyn eu syniadau yn annibynnol. Ar y cyfan, nid yw disgyblion yn cymhwyso'u medrau yn ddigon cyson wrth ysgrifennu ar draws y cwricwlwm.

Ar draws yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau rhif, siâp, mesur a thrin data yn effeithiol. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf yn adnabod darnau o arian hyd at £1 yn hyderus ac yn trefnu darnau o arian o'r lleiaf i'r mwyaf yn gywir. Maent yn defnyddio'u dealltwriaeth o adio yn gadarn i gyfrifo cyfanswm a thalu am wrthrychau yn 'Siop y Bedol' yn yr ardal allanol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio'u medrau rhif yn effeithiol i ddatrys problemau. Er

enghraifft, ym Mlwyddyn 5 a 6 mae disgyblion yn dod o hyd i wybodaeth er mwyn amcangyfrif a chyfrifo perimedr, arwynebedd a chyfaint gwahanol focsys yn annibynnol. Ar draws yr ysgol, nid yw disgyblion yn defnyddio eu medrau rhifedd yn ddigon rheolaidd wrth weithio ar draws y cwricwlwm.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws y cyfnod sylfaen yn datblygu ystod eang o fedrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn llwyddiannus. Maent yn defnyddio'r medrau hyn yn hyderus ar draws y meysydd dysgu. Enghraifft dda o hyn yw'r ffordd y maent yn creu graffiau i nodi'r sbwriel a gasglwyd ar draws yr ysgol mewn wythnos. Mae llawer o'r disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn datblygu eu medrau ymchwilio'n ddiogel ar y we yn dda. Maent yn datblygu medrau pwrpasol i gynhyrchu a defnyddio cronfeydd data i ddadansoddi gwybodaeth a dilyn llwybrau ymholi penodol, er enghraifft am awyrennau yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Mae eu dealltwriaeth o sut i ddefnyddio taenlenni wrth fodelu yn datblygu'n briodol.

## Lles ac agweddau at ddysgu: Digonol ac angen gwella

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda yn y gwersi ac o gwmpas yr ysgol. Maent yn gyfeillgar a gofalgar iawn o'i gilydd gan drin oedolion ac ymwelwyr gyda pharch a chwrteisi.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn hyderus bod staff yn ymateb i unrhyw bryder sydd ganddynt yn brydlon. Mae ganddynt ddealltwriaeth werthfawr o sut i gadw'n ddiogel wrth ddefnyddio'r rhyngrwyd. Er enghraifft, mae'r disgyblion hŷn yn egluro pwysigrwydd cadw manylion cyswllt yn gyfrinachol yn llwyddiannus.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol ddealltwriaeth briodol o sut i fyw'n iach ac maent yn gwneud dewisiadau synhwyrol mewn perthynas â bwyd a gweithgareddau corfforol. Mae llawer yn manteisio ar y clybiau 'Hwyl a Heini' sy'n rhoi cyfle buddiol iddynt gadw'n iach wedi oriau ysgol. Mae'r llysgenhadon efydd yn cynllunio gweithgareddau diddorol ar gyfer gweddill y disgyblion yn ystod amser egwyl. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ymddygiad disgyblion ar y buarth.

Mae'r cyngor ysgol yn weithredol ac yn cefnogi blaenoriaethau'r ysgol yn briodol, er enghraifft trwy gyfrannu at greu côd ymddygiad ar gyfer cyfnod allweddol 2. Fodd bynnag, nid yw eu rôl wrth arwain eu gweithgareddau a gwneud penderfyniadau strategol wedi datblygu'n llawn. Mae ychydig o ddisgyblion yn cymryd unrhyw gyfrifoldebau ychwanegol a ddirprwyir iddynt o ddifri, er enghraifft y Dewiniaid Digidol sy'n cefnogi disgyblion gyda'u medrau TGCh yn effeithiol.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gweithio'n synhwyrol gyda phartner ac mewn grwpiau. Yn y cyfnod sylfaen, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion agwedd gadarnhaol tuag at eu gwaith. Maent yn dangos brwdfrydedd ac yn dyfalbarhau â'u tasgau yn ddiwyd. Enghraifft effeithiol o hyn yw'r ffordd y maent yn defnyddio deunyddiau ailgylchu i adeiladu tractor yn yr ardal allanol. Mae hyn yn datblygu eu gallu i weithio'n annibynnol o oedran ifanc yn llwyddiannus. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn cadw ar dasg yn addas. Fodd bynnag, mae diffyg uchelgais a gor-ddibyniaeth ar gymorth oedolion a fframweithiau parod yn llesteirio eu gallu i gwblhau tasgau i safon uchel yn annibynnol. Yn y cyfnod sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn cyfrannu at beth y maent yn dymuno ei ddysgu o fewn yr ardaloedd yn briodol, ond nid yw cyfraniad disgyblion i hyn yr un mor amlwg yng nghyfnod allweddol 2.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Digonol ac angen gwella**

Ar draws yr ysgol, mae athrawon yn creu perthynas waith effeithiol gyda'r disgyblion. Maent yn rheoli eu hymddygiad yn fedrus ac mewn modd sensitif sydd yn arwain at greu a chynnal awyrgylch ddysgu ddiogel.

Mae athrawon yn cynllunio ar y cyd, sy'n sicrhau bod disgyblion yn derbyn yr un profiadau ar draws gwahanol flynyddoedd dysgu. Ar y cyfan, mae athrawon yn cynnig gweithgareddau diddorol i ddisgyblion, sy'n ennyn diddordeb y mwyafrif ohonynt yn llwyddiannus. Enghreifftiau effeithiol o hyn yw'r ffordd y maent yn annog y disgyblion i greu brechdanau jam mwyar duon yn y dosbarth Derbyn a chynnal ymchwiliadau gwyddonol i ddarganfod effaith gwahanol ddiodydd ar ddannedd yng nghyfnod allweddol 2. Gwneir defnydd effeithiol o ymweliadau addysgol er mwyn cyfoethogi'r cwricwlwm, er enghraifft wrth ymweld â Llancaiach Fawr i ddysgu am fywyd yn ystod oes y Tuduriaid.

Mae bron pob un o'r athrawon yn rhannu nodau ac amcanion gwersi ynghyd â meini prawf llwyddiant clir gyda'r disgyblion. Yn y lleiafrif o ddosbarthiadau lle mae'r addysgu yn fwyaf effeithiol, mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion weithio'n annibynnol ac yn eu hannog i ddyfalbarhau ag unrhyw anawsterau yn eu gwaith. Yn y dosbarthiadau hyn, mae athrawon yn holi disgyblion yn fedrus er mwyn eu hannog i feddwl drostynt eu hunain.

Yn y lleiafrif o ddosbarthiadau, lle mae'r addysgu yn llai effeithiol, mae athrawon yn arwain gormod ar y gweithgareddau. Mae cyflymder y gwersi yn rhy araf ac, o ganlyniad, nid yw disgyblion yn cyflawni digon o fewn amser penodol. Yn gyffredinol, ar draws yr ysgol, nid oes gan athrawon bob amser ddisgwyliadau na dyheadau digon uchel ar gyfer eu disgyblion, yn enwedig o ran datblygu eu medrau llafaredd Cymraeg. Er bod llawer o athrawon yn fodelau iaith priodol o fewn gwersi, nid ydynt yn cywiro iaith disgyblion yn ddigon cyson nac yn cynllunio'n ddigon bwriadus i ddatblygu eu medrau llafar yn gynyddol dros gyfnod.

Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi canolbwyntio ar wreiddio egwyddorion y cyfnod sylfaen yn gadarn. Erbyn hyn, mae'r athrawon yn cynllunio'n bwrpasol i sicrhau cydbwysedd addas rhwng gweithgareddau o dan arweiniad oedolyn ac eraill sy'n cael eu harwain gan ddisgyblion yn y dosbarth ac yn yr awyr agored. Maent yn dechrau cynllunio heriau pwrpasol sy'n cael effaith gadarnhaol ar allu disgyblion i weithio'n annibynnol. Fodd bynnag, nid yw'r heriau hyn bob tro'n ddigon clir i ddisgyblion nac yn cynnig digon o her iddynt.

Er mwyn paratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd i Gymru, mae'r ysgol wedi dechrau datblygu rhai o egwyddorion y cyfnod sylfaen yng nghyfnod allweddol 2. Trwy hyn, mae athrawon yn dechrau cynllunio ychydig o gyfleoedd addas i ddisgyblion gymhwyso eu medrau ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, nid yw athrawon yn teilwra gweithgareddau yn ddigon effeithiol i gefnogi a herio disgyblion o bob gallu fel eu bod yn gwneud y cynnydd gorau posibl o fewn gwersi.

Mae llawer o athrawon yn cynllunio gweithgareddau cyson i ddisgyblion ddefnyddio eu medrau llythrennedd yn briodol ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, ym Mlwyddyn 5 a 6, maent yn ysgrifennu testun esbonio yn Saesneg i sôn am effaith ysmygu ar y corff. Fodd bynnag, prin yw'r cyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso'u

medrau rhifedd wrth weithio ar draws y cwricwlwm. Nid yw athrawon yn cynllunio'n ddigon bwriadus i addysgu medrau llythrennedd a rhifedd yn gynyddol nac i'r lefel briodol.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r ysgol wedi gwella'r defnydd o strategaethau asesu ffurfiannol, gan gynnwys cynnig cyfleoedd addas i ddisgyblion asesu eu gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion. Gan amlaf, mae llawer o athrawon yn cynnig adborth priodol ar lafar er mwyn symud y dysgu ymlaen. Mae sylwadau ysgrifenedig yn dechrau cynnig adborth perthnasol i ddisgyblion ar sut i wella eu gwaith dilynol gyda chyfleoedd addas iddynt ymateb i'r adborth.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Digonol ac angen gwella**

Un o brif gryfderau'r ysgol yw'r gefnogaeth a'r ddarpariaeth i ddisgyblion bregus a'u teuluoedd. Mae'r staff yn creu ethos gofalgar a chefnogol mewn amgylchedd diogel ar gyfer y disgyblion. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn teimlo'n hyderus i rannu eu teimladau ynghyd â'r hyn sy'n peri gofid iddynt gyda'r staff a'u cyfoedion. Mae'r ffocws pwrpasol ar hyrwyddo lles a chefnogi disgyblion ag anghenion emosiynol, iechyd a chymdeithasol yn effeithiol. Enghraifft dda o hyn yw'r ffordd y mae'r ysgol yn cynnig ystod o grwpiau ymyrraeth i'r disgyblion hynny sy'n cael anhawster rheoli eu teimladau. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar wella ymddygiad grwpiau o ddisgyblion.

Mae'r ysgol yn darparu profiadau uniongyrchol i ddisgyblion wneud gwahaniaeth yn y gymuned. Mae hyn yn datblygu lles personol a chymdeithasol disgyblion yn dda. Enghraifft effeithiol o hyn yw'r cyfle gwerthfawr a roddwyd i'r Pwyllgor Eco weithio gyda chyngor y dref i blannu coed yn y gymuned leol.

Mae gwelliannau diweddar i'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn dechrau sicrhau cysondeb a thrylwyredd yng ngweithdrefnau'r ysgol. Fodd bynnag, nid yw'r targedau a osodir mewn cynlluniau addysg unigol bob tro'n ddigon penodol i fesur cynnydd disgyblion yn effeithiol ac nid ydynt yn cael eu gwerthuso yn ddigon cyson ar adegau penodol yn ystod y flwyddyn. Yn gyffredinol, nid yw cynllunio athrawon na'u harferion dosbarth o ddydd i ddydd bob amser yn rhoi digon o sylw i anghenion unigol y disgyblion hyn. O ganlyniad, boddhaol yw cynnydd llawer o ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, yn arbennig o ran llythrennedd. Mae cysylltiadau gwerthfawr yn bodoli, serch hynny, gyda gwasanaethau arbenigol, er enghraifft i ddarparu cymorth gwerthfawr i oedolion sy'n gweithio gyda disgyblion sydd ag anghenion meddygol neu ddatganiadau o anghenion addysgol arbennig.

Yn gymharol ddiweddar, mae'r ysgol wedi sefydlu gweithdrefnau electronig priodol i olrhain a monitro cynnydd disgyblion wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Mae arweinwyr ac athrawon yn dechrau defnyddio'r wybodaeth sy'n deillio ohonynt i fonitro cynnydd grwpiau penodol o ddisgyblion. Fodd bynnag, nid oes gan lawer o athrawon ddealltwriaeth ddigon trylwyr o safonau disgyblion ac felly nid yw'r barnau ar gyflawniad disgyblion sy'n seiliedig ar eu hasesiadau bob tro yn adlewyrchiad cywir o'u gallu.

Mae gan yr ysgol drefniadau llwyddiannus i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion astudio effaith bwyta ac yfed yn iach ar eu cyrff fel rhan o'r cwricwlwm. Er enghraifft, mae disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 wedi cael cyfleoedd buddiol i ymchwilio i'r siwgr sydd mewn diodydd a threfnu gweithgareddau penodol i hyrwyddo arferion da yn y maes hwn ar gyfer wythnos genedlaethol bwyta'n iach. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar eu dealltwriaeth o bwysigrwydd diet cytbwys. Mae'r ysgol yn darparu ystod o gyfleoedd cyson a buddiol i sicrhau bod disgyblion yn gwneud dewisiadau bywyd iach trwy gymryd rhan mewn gweithgareddau i ymarfer y corff yn rheolaidd fel rhan o wersi addysg gorfforol a gweithgareddau ar ôl ysgol. Enghraifft effeithiol yw'r cyfleoedd i'r disgyblion hŷn ddefnyddio'r ystafell ffitrwydd gymunedol yn rheolaidd. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd cyfoethog i ddisgyblion fanteisio ar ystod o brofiadau anturus, er enghraifft mewn ymweliad â chanolfan breswyl awyr agored.

Mae'r staff yn rhoi pwyslais llwyddiannus ar ddatblygu gwerthoedd ar draws yr ysgol. Caiff agweddau ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynaliadwyedd eu datblygu'n effeithiol trwy raglen addysg bersonol a chymdeithasol. Hyrwyddir agweddau ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn gynhwysfawr trwy astudio credoau'r byd a thrwy gyfnodau o gyd-addoli rheolaidd. Mae'r disgyblion hefyd yn elwa o ymweliadau cyson gan arweinwyr crefyddol o'r gymuned sy'n cyfrannu'n bwrpasol at ddatblygu'r agweddau hyn.

Mae gan yr ysgol berthynas gadarnhaol â rhieni ac mae'r pennaeth newydd wedi sefydlu llinellau cyfathrebu effeithiol â nhw trwy ddefnyddio gwefannau cymdeithasol a fforymau rhieni. O ganlyniad, mae mwyfwy o'r rhieni yn dechrau cydweithio â'r ysgol ar faterion sy'n effeithio ar ddysgu a lles eu plant. Mae'r ysgol yn datblygu'r gefnogaeth i rieni yn briodol i sicrhau bod ganddynt yr wybodaeth a'r medrau i'w galluogi i gefnogi eu plant eu hunain. Mae enghraifft dda o hyn yn cynnwys sut mae'r ysgol wedi trefnu sesiynau hyfforddiant mathemateg a Chymraeg i rieni gan ddarparwyr allanol.

Mae trefniadau ysgol ar gyfer diogelu yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Fodd bynnag, tynnodd y tîm arolygu sylw arweinwyr yr ysgol at fater iechyd a diogelwch sy'n ymwneud yn benodol â threfniadau gollwng a chasglu disgyblion yn y maes parcio.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth: Digonol ac angen gwella

Mewn cyfnod byr, mae'r pennaeth a'r uwch dîm rheoli wedi llwyddo i greu ethos o gydweithio llwyddiannus ymhlith y staff. Mae eu harweinyddiaeth yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad strategol yr ysgol. Mae ganddynt weledigaeth gadarn sy'n seiliedig ar greu ysgol ofalgar lle mae lles disgyblion yn ganolog i'w gwaith. Maent yn rhannu'r weledigaeth hon yn llwyddiannus gyda'r staff, y llywodraethwyr a'r rheini. Yn ddiweddar, mae'r pennaeth a'r uwch dîm rheoli wedi gosod nifer o strategaethau gwerthfawr ar waith sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar wella lles disgyblion ac ychydig o agweddau o'r ddarpariaeth a safonau disgyblion. Fodd bynnag, nid oes ganddynt bob amser ddisgwyliadau na dyheadau digon uchel yn enwedig mewn perthynas â datblygu agweddau ar addysgu nac wrth ddatblygu medrau llafar Cymraeg disgyblion.

Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol iawn i'r ysgol ac yn cyflawni eu dyletswyddau yn gydwybodol. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o gryfderau'r ysgol a nifer o'r meysydd sydd angen eu datblygu. Yn ddiweddar, maent yn defnyddio eu cryfderau yn fuddiol er mwyn gweithredu'n effeithiol fel ffrindiau beirniadol. Mae canfyddiadau eu hymweliadau cyson yn dechrau cryfhau'r broses hunanarfarnu ac yn cyfrannu'n gadarn at flaenoriaethau ar gyfer y cynllun gwella ysgol.

Mae bron pob un o'r uwch arweinwyr yn newydd i'w rolau. Maent yn datblygu ymwybyddiaeth o'u rolau a'u cyfrifoldebau o ran gwella gwahanol feysydd o addysgu a dysgu pwysig yn addas. Er enghraifft, maent wedi dechrau arwain ar feysydd sydd angen eu gwella, fel sicrhau bod egwyddorion y cyfnod sylfaen yn cael eu hymgorffori'n llawn. Mae hyn wedi yn cael effaith gadarnhaol ar wella'r ddarpariaeth i sicrhau bod disgyblion yn cael cyfleoedd buddiol i ddatblygu'n ddysgwyr annibynnol.

Mae arweinwyr wedi sefydlu gweithdrefnau hunanarfanu priodol, gan gynnwys arsylwadau gwersi, siarad â disgyblion, craffu ar waith a dadansoddi data. Mae'r gweithdrefnau hyn yn eu galluogi i adnabod cryfderau'r ysgol a llawer o'r meysydd ar gyfer gwelliant yn dda. Fodd bynnag, nid oes gan y gweithdrefnau monitro bob tro ddigon o ffocws ar arfarnu safonau disgyblion. O ganlyniad, nid yw arweinwyr wedi adnabod ychydig o feysydd pwysig sydd angen eu gwella, fel y diffyg her yn yr addysgu. Mae cyswllt agos yn bodoli rhwng darganfyddiadau'r prosesau hunanarfarnu a chynlluniau gwella. Yn gyffredinol, mae'r cynllun datblygu ysgol yn nodi camau gweithredu defnyddiol er mwyn gwella agweddau ar y ddarpariaeth a safonau disgyblion. Fodd bynnag, nid yw'r meini prawf llwyddiant bob tro'n ddigon uchelgeisiol neu feintiol i alluogi arweinwyr i fesur cynnydd yn ddigon effeithiol.

Mae trefniadau clir ar waith i reoli perfformiad holl staff yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr bob amser yn defnyddio'r trefniadau hyn yn ddigon trylwyr i ddwyn staff i gyfrif yn ddigon da am berfformiad disgyblion. Darperir cyfleoedd hyfforddiant gwerthfawr ar gyfer datblygiad proffesiynol staff yn unol â blaenoriaethau'r ysgol a rheoli perfformiad staff unigol. Enghraifft effeithiol o hyn yw'r hyfforddiant ffoneg sy'n cael effaith gadarnhaol ar fedrau darllen disgyblion yn y cyfnod sylfaen.

Mae'r ysgol wedi'i staffio'n hael a defnyddir staff yn briodol i addysgu'r cwricwlwm. Yn gyffredinol, mae gan yr ysgol ddigon o offer o ansawdd da i gefnogi dysgu'r disgyblion yn effeithiol, er nid oes digon o lyfrau darllen o ansawdd da i sbarduno disgyblion i ddarllen. Mae adeilad yr ysgol a'r ardal allanol helaeth yn darparu amgylchedd deniadol i ddisgyblion ddysgu.

Mae'r cyllid yn cael ei fonitro'n ofalus gan y Rheolwr Busnes, y llywodraethwyr a'r uwch dîm rheoli. Mae gwariant yn cael ei gysylltu'n agos â'r cynllun i ddatblygu blaenoriaethau'r ysgol. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd priodol o'r grant datblygu disgybl, er enghraifft wrth gynnal ymyraethau i wella lles ac emosiynau disgyblion bregus.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 17/12/2018